

Gêm y Banana Split

Amcan y gêm

I gyflwyno'r gadwyn fanana (yr hyn sy'n digwydd i fanana cyn iddo gyrraedd y prynwr) ac i drin a thrafod realiti 'pwysy'n cael beth' o werthiant bananas.



Sut mae chwarae'r gêm

Rhannwch y grwp i bump i gynrychioli pob un o'r swyddi gwahanol yn y gadwyn fanana. Dywedwch wrth bob un ohonynt eu bod yn mynd i chwarae gêm sy'n dilyn llwybr y banana o'r fferm yn America Ladin (neu ynsoedd y Caribi) i'w powlen frwyth.

Y rownd gyntaf

1. Dosrannwch y roliau

- (i) Gweithiwr bananas
- (ii) Perchennog ystâd
- (iii) Cwmni llongau
- (iv) Mewnforwr ac aeddfedwr
- (v) Siop neu archfarchnad

(Gwnewch yn siwr fod gan bawb rôl i'w chwarae)

2. Gwasgarwch y grwpiau. Rhowch iddynt eu cardiau rôl a gofynnwch iddynt ddarllen y wybodaeth am eu roliau. Rhowch rai munudau iddynt i ddeall beth a allai fod yn-ghlwm yn eu roliau.

3. Dywedwch wrthynt mai 30c yw pris pob banana.

4. Gofynnwch iddynt benderfynu faint o'r 30c y dylent ei dderbyn am y swyddi/gwaith maent yn ei wneud yn y gadwyn fanana.

5. Gofynnwch iddynt dreulio munud neu ddau i drin a thrafod hyn, ac i baratoi dadleuon i egluro pam eu bod yn haeddu'r swm maent wedi'i ddewis ar gyfer eu hunain.

6. Gofynnwch i bob grwp i rannu'r symiau ac i gyflwyno eu rhesymau.

Yr ail rownd

Yn anochel, bydd y cyfanswm o'r holl grwpiau yn fwy na 30c. Bydd rhaid i'r grwpiau aildrafod telerau.

1. Dewiswch lefarydd o bob grwp i aildrafod hyd nes y bydd y cyfanswm yn dod i 30c.

2. Wedi iddynt gytuno ar y symiau i'w talu datgelwch y gwir ddadansoddiad o bwy sy'n cael beth o bris terfynol banana o'r Amerig Ladin. (Gweler yr atebion drosodd.)

I gael effaith cryfach, rhowch 30 ceiniog i'r grwp sy'n cynrychioli'r archfarchnad. Maen nhw'n cadw eu siâr ac yn rhoi'r gweddill i grwp yr Aeddfedwr sy'n cadw eu siâr ac yn pasio'r gweddill ymlaen i'r Mewnforwr, sy'n cadw eu siâr a phasio'r gweddill i'r Cwmni Llongau, wedyn y Perchnogion ac yn olaf y Gweithwyr

Awgrymiadau am drafodaeth

- Ydych chi'n meddwl bod hon yn sefyllfa deg?
- Pam mae'r 30c yn cael eu rhannu fel hyn?
- Pwy sydd â'r pŵer a pham?
- Pa beth a ellir ei wneud i wella'r sefyllfa?
- Pa rôl y gallwn ni ei chwarae fel y rhai sy'n prynu'r bananas?
- A fydddech chi'n barod i dalu mwy am eich bananas os oeddech yn gwybod y byddai gweithwyr a ffermwyr yn derbyn pris fyddai'n eu galluogi i gwrdd â'u anghenion sylfaenol?
- Ydych chi'n ymwybodol o sefyllfaoedd cyffelyb yn y wlad hon? (E.e. defnyddio gweithwyr o wledydd gwahanol, yn aml wedi'u rheoli gan gangmasters, ar ffermydd yn Nwyrain Lloegr, neu'r gweithwyr o Dseinia a gyflogir i hel cocos)


Syniadau Allwedd

- 'Rydym yn cael ein cysylltu â phobl o bedwar ban byd gan y pethau 'rydym yn eu prynu a'u bwyta.
- Gwnaethpwyd llawer o'r cynnyrch sydd yn ein siopau o ddefnyddiau crai a fewnforwyd o wledydd tlawd yn yr Affrig, yn Asia, yn yr Amerig Ladin ac o ynsoedd y Caribi.
- Mae llawer o weithwyr heb dderbyn digon i gwrdd â'u anghenion sylfaenol: bwyd, cartref, dillad, moddion ac addysg. Mae hyn yn annheg.
- Cyflwynwyd labeli Masnach Deg er mwyn i ni, y siopwyr, allu bod yn siwr y caiff gweithwyr fargen deg am eu gwaith a'u cynnyrch.

(Atebion trosodd)

Atebion

Gweithiwr banana 1c. Perchennog ystâd 5c. Cwmni Llongau 4c.
Siop neu archfarchnad 13c. Mewnforwr ac aeddfedwr 7c. Cyfanswm 30c.



Masnach Deg

Nodyn: mae'r dadansoddiad hwn yn weddol o gywir ond wrth reswm mae'n cael ei symleiddio ar gyfer y gêm. Bydd dadansoddiad dipyn yn wahanol ar gyfer pob gwlad sy'n allforio bananas. Ceir hefyd wahaniaeth yn y ffordd y dosberthir yr elw o fananas a allforir o ffermydd bach ac o ystadau mawr.

Mae pobl yn gofyn yn aml am y dadansoddiad ar gyfer banana Masnach Deg. Testun y gêm hon yw Bananas 'confensiynol' – y ffordd y cynhyrchir y mwyafrif o fananas – ac mae'n well trafod cwestiwn Masnach Deg yn nes ymlaen mewn gweithdy gan y gall y ddadl fynd i gors am fanylion Masnach Deg. Cwestiwn arall sy'n codi yw bod y symiau a dderbynnir gan ffermwr bananas Masnach Deg yn amrywio o wlad i wlad gan y penodir pris ar gyfer amgylchiadau penodol pob gwlad. Mae'r pris a delir yn golygu bod ffermwyr a gweithwyr yn derbyn 'cyflog byw' – mewn geiriau eraill gyflog sy'n caniatáu iddynt ddarparu i'w teuluoedd gartref, bwyd ac addysg, a'u bod yn perchen ar swm bach ar ben hynny i'w wario fel y mynnant.

Fel grwp o weithwyr Masnach Deg neu o ffermwyr bychain telir iddynt hefyd swm ychwanegol y mae'r grwp ei hun yn penderfynu sut i'w wario: gellir ei wario i wella cyflogau, i gynnal cynlluniau i ddatblygu'r gymuned, i godi lefelau cynhyrchu neu ar faterion amgylcheddol.

Dolennau gwe ac e-bost:

www.fairtrade.org.uk
info@bananalink.org.uk
www.bananalink.org.uk
www.cafod.org.uk

Wedi'i haddasu gan CAFOD 2005 o gêm a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan Gymorth Cristnogol a Banana Link.



Ceir yn y gadwyn fanana bump o brif rolau. (Y mae hyn i raddau yn symleiddio'r byd go-iawn, ond mae'n briodol er pwrpas y gêm hon.)

Gall y hyrwyddwr ddefnyddio'r cardiau hyn i roi gwybod i bob grwp am y gwaith y maent yn gorfod ei wneud.

Gweithiwr Banana



12 – 14 o oriau bob dydd o waith caled corfforol mewn tymheredd uchel

Dewis y bananas gorau

Golchi bananas – bydd eich dwylo mewn dwr trwy'r dydd.

Torri bananas – byddwch chi'n gorfod cario llwythi trymion o fananas ar eich cefn.

Dodi gwrteithiau a phlaladdwyr – mae hyn yn gallu achosi peryglon i'ch iechyd - canser a chlefydau eraill.

Mae plaladdwyr hefyd yn cael eu chwistrellu o awyrennau – mae'n debygol y byddant yn disgyn ar eich cartref neu ar yr ysgol leol.


Gofid: a fydd gennych ddigon o arian i brynu bwyd, i dalu biliau meddygol neu i anfonh plant i'r ysgol?

Gallai fod na chaniateir i chi gwrdd â gweithwyr eraill i gwyno am eich cyflog, am y ffordd 'rydych yn cael eich trin na am ba le 'ych chi'n gorfod byw.

Bydd arnoch bwysau i beidio ymuno ag undeb llafur.



Perchennog Ystâd



Costiau rhedeg ystâd: Bydd rhaid i chi dalu am blaladdwyr drud, tanwydd i'r awyrennau chwistrellu, offer a pheiriannau.


Cost cyfreithwyr: rhag ofn bod gweithwyr yn eich erlyn am iawndal oherwydd damweiniau yn y gwaith.

Gwastraff: mae rheolau yn y rhan fwyaf o wledydd yn Ewrop – a'r rhan fwyaf o siopwyr - yn mynnu 'ffrwythau perffaith' – dim marciau ar y croen, siâp ddeniadol ayyb. Mae hyn yn gofyn llawer o fedr ac ymdrech i'w gyflawni. Os nad yw rhai o'ch bananas chi yn cyrraedd y nod bydd rhaid eu bwrw o'r neilltu – ac felly fe gollwch arian.

Perygl colledion: Y chi sy'n gorfod derbyn y golled os yw'r cynhaeaf yn wael, neu os bydd corwynt neu bla yn difetha'ch cnwd.

Buddsoddiadau i foderneiddio: Mae arnoch angen arian i ddal i dalu am y peiriannau a'r syniadau diweddaraf fel y bo'ch ystâd yn aros yn flaengar a chithau mewn busnes.

Cost tir: po hiraf y defnyddir eich tir i dyfu bananas, po fwyaf y dihybyddu'r pridd, a bydd rhaid wedyn i chi dalu am gwrteithiau drud, neu brynu tir newydd!



Yr Anfonwr



Rydych yn wynebu'r costiau a ganlyn:

Llongau: mae llongau cargo mawr yn ddud iawn i'w brynu ac i'w cadw mewn cyflwr da.

Tanwydd: mae'n rhaid talu am danwydd i'r llongau – gall un llwyth o fananas fod ar y mor am gymaint â phum wythnos rhwng yr Amerig Ladin a Ewrop.

Yswiriant: os caiff cargo ei golli neu'i niweidio gall fod mai arnoch chi mae'r bai af felly y bydd rhaid i chi dalu amdano.

Rheweiddio: ar y llong, cedwir y bananas mewn oergelloedd mawr i'w cadw rhag aeddfedu yn ystod y fordaith. Os byddant yn aeddfedu yn rhy fuan cânt eu difetha erbyn iddynt gyrraedd y siopau.

Ffioedd porthladd: byddwch yn gorfod talu am i'ch llongau ddefnyddio'r porthladd ar ddechrau ac ar ddiwedd y fordaith.



Siopau ac Archfarchnadoedd

Staff: mae'n rhaid i chi dalu'r bobl sydd yn gweithio yn eich siop.

Costau rhedeg: Goleuo, trafniadaeth, cynllunio gwisg unffurf i'r staff, bagiau ayyb.

Cystadleuaeth: byddwch yn gorfod ymdopi â syniadau newydd, efallai codi siop mwy, prynu peirianwaith newydd – y cyfan i wneud yn siwr eich bod chi yn gwneud mwy o arian na siopau eraill ac aros mewn busnes.

Peryglon: os trafodir y bananas yn wael, neu os cyrhaeddant y silffoedd yn rhy aeddfed, ni fydd eich cwsmeriaid yn hapus – gallent benderfynu i beidio siopa gyda chi.

Hysbysebu: bydd rhaid i chi hysbysebu'r hyn 'rydych yn ei werthu a dangos pa mor dda yw'ch siop chi fel y bydd siopwyr yn dod i brynu yn eich siop chi yn hytrach na mynd i rywle arall.



Mewnforwr ac Aeddfedwr

Trafniadaeth: mewn lori o'r porthladd yn Ewrop i ganolfannau aeddfedu mawr ac o'r rhain i'r siopau

Cytundebau: byddwch yn gorfod addo i berchennog yr ystâd y byddwch yn prynu hyn a hyn o fananas bob wythnos. Byddwch yn gorfod addo i'r siopau y byddwch yn darparu hyn a hyn o fananas bob wythnos. Beth bynnag a ddigwydd, bydd rhaid i chi gadw'r addewidion, hyd yn oed os aiff rhywbeth o'l le yn y gadwyn gyflenwi ac 'rydych yn cael eich siomi.

Ffi drwydded: bydd rhaid i chi dalu am drwydded mewnforio i ddod â'ch bananas i mewn i'r Undeb Ewropeaidd.

Swyddfeydd mawr: y mae ar fewnforwyr 'angen' swyddfeydd mawr, ffansi, ar gyfer y gwaith sydd ynghlwm wrth eu gwaith.

Nwy aeddfedol: defnyddir ethylene i aeddfedu bananas.


Ail-bacio: Ar ôl eu haeddfedu mae'n rhaid eu hail-bacio'r, felly byddwch yn gorfod talu am y defnyddiau a'r gweithwyr i wneud hyn.




Banana Split




Gweithiwr
Banana




Perchennog
Ystâd



Yr Anfonwr



Siopau ac
Archfarchn-
adoedd



Mewnforwr
ac Aeddfedwr